Ysgol Gynradd Gymunedol yr Eglwys yng Nghymru Trefonnen
Trefonnen Lane
Llandrindod
Powys
LD1 5EP

13/12/2024

Annwyl Jessica Stuart-Lyon

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Trefonnen yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Mehefin 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad â disgyblion
- cyfarfod ag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennau

At ei gilydd, mae arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â'r argymhellion, er eu bod yn cydnabod bod agweddau y gellir eu gwella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion hŷn**

- Mae gan yr ysgol ymagweddau addas i sicrhau bod disgyblion iau yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu medrau echddygol mewn sesiynau llythrennedd corfforol pwrpasol. Mae llawer ohonynt yn dysgu'r llythrennau a'r synau a wnânt ac, ymhen amser, yn dechrau ailadrodd storïau. Mae ychydig o ddisgyblion iau yn dechrau ysgrifennu'n estynedig, gan gofnodi'r storïau hyn yn annibynnol.
- Mae datblygu'r medrau ysgrifennu cynnar hyn yn darparu sylfeini gwerthfawr i ddisgyblion adeiladu arnynt wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

- Mae arweinwyr wedi pennu disgwyliadau clir ar gyfer staff ar sut i gefnogi disgyblion i wella eu medrau ysgrifennu. Maent wedi cyflwyno strategaethau penodol yn yr ystafell ddosbarth, fel modelu'n rheolaidd sut olwg sydd ar ddarnau ysgrifennu effeithiol neu lai effeithiol.
- Mae arweinwyr wedi atgyfnerthu disgwyliadau yn ymwneud â pholisi llawysgrifen yr ysgol, gan gydnabod y cysylltiad rhwng arddulliau ysgrifennu rhwydd a'r gallu i ysgrifennu'n estynedig, er ei fod yn rhy gynnar i weld effaith gyson ar draws yr ysgol.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ysgrifennu mewn nifer gynyddol o ffurfiau, yn enwedig mewn gwersi iaith.
- Yn yr ychydig enghreifftiau cryfaf, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu darnau diddorol sy'n bodloni anghenion darllenwyr. Maent yn dewis geirfa i greu effaith ac yn ysgrifennu'n fwyfwy cywir.
- Lle mae gwaith ysgrifenedig yn llai datblygedig, mae gwaith disgyblion yn cynnwys gwallau sillafu a gramadegol ac nid ydynt yn defnyddio paragraffau'n gyson.
- At ei gilydd, mae'r ysgol wedi rhoi dulliau gwerthfawr ar waith i gefnogi disgyblion hŷn i ddatblygu eu medrau ysgrifennu, ond nid ydynt wedi cael effaith lawn ar ysgrifennu disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu hyd yn hyn.

**Gwella ansawdd adborth athrawon fel bod disgyblion yn deall ble a sut gallant wella'u gwaith**

- Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n ddiwyd i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd. Maent wedi cydweithio'n dda â'i gilydd i ddatblygu ymagwedd yr ysgol at ddefnyddio adborth i gefnogi dysgu disgyblion ar draws y cwricwlwm. Maent yn deall yr effaith gadarnhaol y mae adborth yn ei chael ar les disgyblion a sut mae'n hybu eu hagweddau at ddysgu a'u hyder.
- Mae dysgu proffesiynol defnyddiol wedi cynnig cyfleoedd i staff ddatblygu eu hymagweddau at adborth llafar ac ysgrifenedig. Mae arweinwyr wedi elwa ar gymryd rhan mewn prosiect ymholi yn seiliedig ar effaith adborth a datblygu meini prawf llwyddiant effeithiol. Mae'r ymagwedd hon wedi'i seilio ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o sut i adolygu eu cynnydd eu hunain a'u dealltwriaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Dyma'r elfennau sydd wrth wraidd gweledigaeth yr ysgol ar gyfer asesu ac adborth.
- Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau. Mae hyn yn cefnogi dysgu disgyblion yn bwrpasol ac yn eu hannog i wneud eu gorau. Er enghraifft, yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae athrawon a staff cymorth yn canmol disgyblion am ymestyn eu hatebion i gwestiynau gwahanol.
- Mae Mr Marcio yn ddull o roi adborth ysgrifenedig i ddysgwyr iau. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ymwybyddiaeth disgyblion iau o sut i gywiro gwallau sylfaenol.
- Mae disgyblion hŷn yn dangos hyder cynyddol wrth gyfeirio at arddangosiadau wal wedi'u seilio ar feini prawf llwyddiant sy'n cefnogi eu dysgu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion hŷn wrth iddynt ddatblygu ac ailddrafftio agweddau ar eu gwaith ysgrifenedig.

- Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ystyried adborth er mwyn gallu datblygu eu gwaith ymhellach.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6663030

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol